# BETH AM GYSYLLTU

GWEITHGAREDDAU AR GYFER PLANT 11-14 OED

Place2Be's WYTHNOS IECHYD MEDDWL PLANT

CHWEFROR 6-12 2023

GWEITHGAREDD 1

## Cerddoriaeth sy'n ein cysylltu ni

**Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu'r disgyblion i feddwl am y caneuon maen nhw'n cysylltu â nhw, a chreu eu caneuon, cerddi neu weddïau eu hunain am gysylltu.**

**DS:** Byddwch yn arbennig o ymwybodol o ddisgyblion sydd â phrofiad o fod mewn gofal, disgyblion sydd wedi'u mabwysiadu, rhai sy'n cael gofal gan berthynas, a disgyblion sydd efallai yn cael cyswllt cyfyngedig â'u rhieni neu aelodau eraill o'r teulu yn ystod y gweithgaredd hwn.

- Gwrandewch ar /gwylio'r fideo o un o'r caneuon am gysylltiadau (sydd wedi'u rhestru ar y dde) - neu dewiswch eich cân eich hun.
- Trafodwch y geiriau gyda'r disgyblion a gofyn cwestiynau megis:
  - Beth ydych chi'n feddwl wnaeth ysbrydoli'r artist i ysgrifennu'r gân?
  - Beth ydych chi'n feddwl y mae'r elfennau gweledol yn ychwanegu at ystyr y gân?
  - Sut ydych chi'n teimlo wrth wrando ar y gân neu wylio'r fideo?
  - Beth all caneuon a cherddi eu gwneud i bobl sy'n teimlo'n ddatgysylltiedig neu'n unig?
- Gofynnwch i'r disgyblion lunio rhestr o unrhyw ganeuon sy'n cysylltu â sut roeddynt yn teimlo ar adeg bwysig yn eu bywydau.
- Trafodwch rhai o'r caneuon a'r geiriau allweddol sy'n cysylltu pobl megis Pen-blwydd Hapus, Gweddïau, Anthemau Pêl-droed (You'll Never Walk Alone; Hen Wlad fy Nhadau; Yma o Hyd ac ati); neu gyd-ganu mewn cyngerdd.
- Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu cân, cerdd neu weddi am gysylltu.
- Arddangoswch y rhain ar fwrdd 'Beth am gysylltu?', ochr yn ochr â syniadau'r disgyblion am ganeuon sy'n eu helpu i deimlo'n gysylltiedig.

### Syniadau am ganeuon



**Stormzy**
Blinded by Your Grace
Gwylio Stormzy



**One Republic**
Connection
Gwylio One Republic



**Quinn L'Esperanc**
Human Connection
GwylioQuinn



**Ed Sheeran**
Photograph
Gwylio Ed



**Bruno Mars**
Count on Me
Gwylio Bruno

**Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio ar gyfer plant 11-14 oed, ond fe allech ei ddefnyddio ar gyfer grwpiau oed eraill hefyd. I wahaniaethu neu ymestyn y cynnwys, cyfeiriwch at syniadau eraill am weithgareddau.**